

Adroddiad ar Ansawdd Academaidd

Trefn a Chyfathrebu'r Cwrs

#AAA2 • 2018



Rob, Charlie a Josh.

Tim Sabothol UMYDDS, 2017/18

Rhagarweiniad

Mae'n braf gennym gyflwyno ein hail Adroddiad blynyddol ar Ansawdd Academaidd. Eleni, mae Undeb y Myfyrwyr wedi penderfynu canolbwyntio ar y ffordd y caiff cyrsiau eu trefnu a'u cyfathrebu. Penderfynwyd ar y meysydd hyn ar gyfer y darn hwn o waith gan eu bod yn aml yn sgorio'n is mewn nifer o arolygon myfyrwyr, a'u bod hefyd yn ymddangos yn rheolaidd mewn sylwadau gan gynrychiolwyr a gwaith yr Undeb ar achosion academaidd.

Ein bwriad wrth gyflwyno'r wybodaeth hon yw helpu'r Brifysgol i ganfod meysydd ar gyfer gwelliant fel rhan o'n rôl fel cyfaill beirniadol. Rydym yn tynnu sylw at y meysydd hyn gan ein bod yn credu y bydd mynd i'r afael â nhw'n arwain at wella boddhad myfyrwyr.

Mae'r pynciau hyn yn eang ac maent yn cwmpasu nifer o feysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar brofiad academaidd myfyrwyr. Maent yn cynnwys amserlennu, cyfathrebu, oriau dysgu hwy, argaeledd modiwlau a materion sy'n gysylltiedig â myfyrwyr ar leoliad gwaith a dysgwyr o bell. Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn dadlau bod trefn effeithiol cyrsiau'n hanfodol i foddhad myfyrwyr a phrofiad myfyrwyr cadarnhaol. Mae cymdeithas Prifysgolion y DU¹ yn nodi mai dyma'r prif reswm sydd gan fyfyrwyr am beidio â bod yn fodlon â'u profiad myfyrwyr.

Rydym yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Brifysgol i'w ystyried ac yn rhagweld y byddwn yn parhau i drafod y materion a'r argymhellion a geir yma. Ar sail ein profiad o brosiect yr AAA hyd yn hyn, credwn ei fod wedi cryfhau'r berthynas rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, ac edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol ar y meysydd hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.

Rob, Charlie & Josh.

¹Universities UK (2016) Student Experience: Measuring Expectations and Outcomes

<http://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2016/student-experience-measuring-expectations-and-outcomes.pdf>

Adran 1

Deilliannau ac Argymhellion AAA1

Deilliannau AAA1

Llynedd, cyflwynodd Undeb y Myfyrwyr y cyntaf o'n Hadroddiadau Ansawdd Blyneddol (AAB) i Senedd y Brifysgol ar y thema 'costau ychwanegol'. Hwn oedd ein AAB cyntaf ac felly rydym wedi bod yn eithriadol o falch gan yr ymateb, o fewn y sefydliad ac yn allanol. Braf iawn oedd cael ein henwebu ar gyfer Gwobrau Addysg UCM Cymru ac UCM y DU am y prosiect, ac ennill hefyd. Ond yn bwysicaf oll, mae'r prosiect hwn yn rhoi sylfaen ar gyfer sefydlu ac olrhain materion sy'n bwysig i fyfyrwyr, eu profiad dysgu a'u llwyddiant yn y dyfodol. Mae'r costau astudio cynyddol yn parhau i fod yn her i fyfyrwyr yn PCYDDS a'r tu hwnt iddi, ac rydym yn falch bod y Brifysgol wedi cydnabod y materion a amlinellir yn ein hadroddiad ac wedi cymryd camau i'w datrys.

Cyn symud ymlaen i'r pynciau ar gyfer ein hail AAB, rydym am adlewyrchu ac ymateb i'r gwaith a wnaed gan y Brifysgol ar yr argymhellion a amlinellwyd yn AAB Un. Isod mae'r argymhellion a wnaethom o ran costau ychwanegol, ymateb y Brifysgol i'r argymhellion hynny (fel y'u cyflwynwyd i'r Senedd), a'n sylwadau sy'n cydnabod cynnydd hyd yn hyn ac yn tynnu sylw at feysydd lle mae'n bosib y bydd angen gwaith ychwanegol.

Argymhelliad AAB1

1a

Dylai'r Brifysgol wneud newidiadau i'w deunydd hyrwyddo, gan esbonio unrhyw gostau ychwanegol cyffredinol a fydd yn wynebu myfyrwyr fel rhan o'u hastudiaethau.

Ymateb y Brifysgol

Bellach mae deunyddiau hyrwyddo yn cynnwys gwybodaeth ac maent yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata (ACM).

Paratowyd datganiad ar gost gyffredinol astudio sy'n cynghori myfyrwyr ynglŷn â chostau safonol (e.e. gliniaduron) yn ogystal â'u cynghori ynglŷn â chynigion sydd ar gael fel Tech Over Time sy'n ei gwneud yn haws fforddio mynediad i adnoddau academiaidd.

<http://www.uwtsd.ac.uk/apply/terms/>

Roedd gwybodaeth am gynigion ychwanegol ac ati wedi'i chynnwys ym mhob pecyn croeso, yn ogystal ag ar ap myfyrwyr PCYDDS a ddatblygwyd ar gyfer y cyfnod croeso eleni. Amlinellwyd y rhain hefyd yn yr adnoddau sefydlu a gynhyrchwyd ar gyfer sefydlu yn y dosbarth ac ar dudalennau sefydlu a chroesawu staff.

Sylwadau gan Undeb y Myfyrwyr

Rydym yn croesawu'r datganiad ar gostau ychwanegol cyffredinol a ddarperir ar y wefan. Fodd bynnag, credwn y byddai orau pe byddai dolen i'r datganiad yn cael ei darparu ar brif dudalen y wefan ffioedd:

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-dysgu-israddedig/>.

Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod datganiad ynghylch costau ychwanegol wedi'i gynnwys yn y Telerau ac Amodau ar gyfer ymgeiswyr.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud cryn lawer i hyrwyddo cynigion perthnasol i fyfyrwyr a sut mae cael gafael ar gymorth ariannol; credwn y byddai'n fuddiol pe bai'r rhain wedi'u cysylltu â'r datganiad costau ychwanegol, oherwydd ar hyn o bryd maent ar wahân.

Argymhelliad AAB1

1b

Yn ogystal â hyn, dylai'r Brifysgol sicrhau bod deunydd hyrwyddo ar lefel rhaglenni'n tynnu sylw myfyrwyr at unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau academiaidd. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at yr angen am gyfarpar arbenigol, costau teithio, neu unrhyw gostau o'r rhestr gyffredinol sy'n debygol o fod yn uwch na'r hyn sy'n wynebu myfyrwyr cyffredinol.

Ymateb y Brifysgol

Mae deunyddiau hyrwyddo bellach yn cynnwys gwybodaeth ac maent yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r ACM. Mae gwybodaeth ar lu o dudalennau rhaglen yn cynnwys gwybodaeth am y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhaglen. Gweithredu pellach sydd ei angen: y gyfres o raglenni sy'n weddill.

Sylwadau gan Undeb y Myfyrwyr

Rydym yn cydnabod bod llawer o gynnydd wedi'i wneud a bod mwyafrif y rhaglenni bellach yn cynnwys y datganiad 'costau ychwanegol'. Rydym wedi cwblhau archwiliad o holl dudalennau gwe rhaglenni PCYDDS, a chanfod nad yw rhai rhaglenni yn cynnwys y datganiad cyffredinol o hyd. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u rhestru yn Atodiad 1 - Rhaglenni heb Ddatganiadau. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglenni hyn yn cynrychioli pob cyfadran a'r rhan fwyaf o ysgolion, ac ymddengys nad yw rhai rhaglenni sydd newydd gael eu hychwanegu at y wefan, gan gynnwys rhaglenni sydd eto i gael eu dilysu, yn eu cynnwys.

Mae rhai meysydd yn y Brifysgol lle na allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth o ddatganiadau costau ychwanegol, gan gynnwys cyrsiau sy'n cael eu cynnal ar gampws Llundain, cyrsiau ar gampysau Caerdydd, a nifer o gyrsiau ôl-raddedig.

Rydym wedi rhagweld y gall y wefan fod yn anghywir, ac mae'n bosib y bydd yn dangos hen raglenni. Serch hynny, mae angen ei thacluso er mwyn ei gwneud yn gyflawn.

Argymhelliad AAB1

1C

Dylai'r Brifysgol hefyd asesu 'costau ychwanegol ar gyrsiau' fel rhan o'r broses ddatblygu modiwlau; dylid cynnwys a thrafod hyn o fewn y gylchred ddatblygu ac adolygu rhaglenni astudiaeth.

Ymateb y Brifysgol

Mae hyn bellach yn rhan annatod o brosesau dilysu rhaglenni.

Sylwadau gan Undeb y Myfyrwyr

Rydym yn falch o weld cynnwys costau cwrs ychwanegol yn cael eu cynnwys ar ffurflenni dilysu PV16 a PV16a, ac mae hefyd yn galonogol gweld y drafodaeth a ddilynodd hyn am gostau cysylltiedig yn y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd PASA. Nodwn y drafodaeth ddiweddar yn y PASA ynglŷn ag ymarferoldebau sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn y broses ddilysu a'i hadolygu'n rheolaidd. Credwn y gellid bod yn ddefnyddiol i'r Brifysgol ystyried ychwanegu llinell am 'gostau ychwanegol' ym mhennod pedwar o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

Argymhelliad AAB1

2a

Dylai'r Brifysgol edrych yn fanwl ar y bwrsariaethau mae'n eu cynnig ar hyn o bryd a cheisio cynyddu ac ehangu'r hyn sydd ar gael, gan dargedu'n arbennig myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau sydd â chostau cysylltiedig uwch na'r cyffredin.

Ymateb y Brifysgol

Ar gyfer 2017/18 mae'r brifysgol wedi dyblu'r swm sydd ar gael ar gyfer y Fwrsariaeth Addysgol i £200. Cyflwynwyd bwrsariaeth newydd ar gyfer cyrsiau galwedigaethol o hyd at £200. Mae'r pecyn bwrsariaeth ar gyfer 2018/19 wedi cael ei adolygu'n llawn ac ymgynghorwyd â'r UM fel rhan o'r broses adolygu hon.

Sylwadau gan Undeb y Myfyrwyr

Mae'n braf iawn gweld bwrsariaethau'n cael eu datblygu fel y disgrifir uchod, ac yn arbennig o falch gweld bwrsariaethau newydd ar gyfer cyrsiau galwedigaethol yn cael eu sefydlu. Cawsom ran lawn yn y broses adolygu'r bwrsariaethau, a hoffem gymeradwyo'r Brifysgol am yr agwedd a gymerwyd, gan ein bod yn teimlo bod gadael i Gyfadranau ddatblygu bwrsariaethau'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym eisoes ac yn gwneud y pecyn yn llawer haws i fyfyrwyr ei ddeall.

Argymhelliad AAB1

2b

Rydym am weld bwrsariaethau sy'n seiliedig ar brawf modd ariannol wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer: Myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni Celf, myfyrwyr sy'n astudio Addysg Awyr Agored, a myfyrwyr ar leoliad gwaith

Ymateb y Brifysgol

Cyflwynwyd bwrsariaeth newydd ar gyfer cyrsiau galwedigaethol o hyd at £200. Cytunwyd ar atebion pellach wedi'u teilwra'n arbennig fel rhan o broses adolygu bwrsariaethau 2018/19.

Sylwadau gan Undeb y Myfyrwyr

Credwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac mae'n braf iawn gweld y bwrsariaethau newydd ar gael trwy www.uwtsd.ac.bursaries/course-specific-ug

Argymhelliad AAB1

3a

Cynnal adolygiad llawn o'r costau cysylltiedig cyfredol sy'n perthyn i astudiaethau myfyrwyr, gan ddefnyddio categorïau CCAUC.

Ymateb y Brifysgol

Mae hyn yn parhau, ac er bod hyn wedi'i gwblhau ar lefel rhaglenni (gweler y wefan) ac fe'i gwneir yn systematig ar gyfer rhaglenni newydd (gweler y prosesau dilysu) nid ydym wedi cwblhau adolygiad hyd yma. Y nod yw cwblhau hyn cyn dechrau 2018/19.

Sylwadau gan Undeb y Myfyrwyr

Y peth pwysicaf yw bod myfyrwyr yn deall costau hanfodol a'r hyn all fod yn ddewisol. O'r hyn y gallwn ei weld yn gyhoeddus, nid ydym yn gweld tystiolaeth bod y Brifysgol wedi defnyddio'r tri chategori a argymhellir gan CCAUC (Gorfodol; Angenrheidiol ac Opsiynol). Nid ydym yn siŵr bod defnyddio'r categorïau hyn yn gwbl angenrheidiol, gan fod rhai o'r datganiadau cost ychwanegol a gyhoeddir yn dda iawn ac yn fanwl. Gall fod yn fuddiol i'r Brifysgol sicrhau bod cysondeb ar draws ei raglenni, ac os felly, byddem yn argymhell defnyddio'r categorïau hyn. Os ydynt yn cael eu mabwysiadu, byddai'n fuddiol egluro'r rhain i fyfyrwyr o fewn y datganiad o gost gyffredinol astudio.

Argymhelliad AAB1

3b

Dylid datblygu cynllun gweithredu ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod baich y costau hyn yn cael ei rannu yn y modd mwyaf cyfiawn.

Ymateb y Brifysgol

Gofyn am fodel o gynllun gweithredu gan Undeb y Myfyrwyr i'w gyflwyno yn y Pwyllgor Polisi Corfforaethol (PPC) cyntaf y flwyddyn academiaidd 2017-2018 sy'n egluro ffiniau'r cynllun gweithredu. Y CPC i gymeradwyo a monitro'r cynllun gweithredu.

Sylwadau Undeb y Myfyrwyr

Byddwn yn hapus gweithio gyda'r Brifysgol ar dempled ar gyfer cynllun gweithredu, unwaith i adolygiad y Brifysgol o'r costau cyfredol sy'n gysylltiedig ag astudio gael ei gwblhau (yn unol ag argymhelliad 3a) ac mae'r holl wybodaeth ar gael i'w hystyried a'i hadolygu.

Argymhelliad AAB1

Er hwylustod cyfeiriwch at grynodedb o'n hargymhellion ychwanegol isod

1a	Ychwanegwch ddolen at y datganiad costau ychwanegol ar brif dudalen y wefan ffioedd (http://www.uwtsd.ac.uk/finance/tuition-fees/). Ychwanegwch wybodaeth/ddolenni ar gyfer cynigion perthnasol i fyfyrwyr ac am sut i gael gafael ar gymorth ariannol at y datganiad costau ychwanegol.
1b	Adolygwch atodlen un, gan sicrhau bod pob rhaglen yn dangos gwybodaeth am gostau ychwanegol.
1c	Ystyriwch ychwanegu llinell am 'gostau ychwanegol' ym mhennod pedwar o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.
3a	Cwblhewch yr adolygiad o gostau ychwanegol / cysylltiedig. Ystyriwch fabwysiadu categorïau CCAUC fel arfer safonol.
3b	Ewch yn ôl i'r cynllun gweithredu unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau

Adran 2

AAB2 'Trefniant y Cwrs'

AAB2 'Trefniant y Cwrs'

Ein man cychwyn oedd data'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr (ACF) ar gyfer PCYDDS, sy'n dangos bod trefniant y cwrs yn faes sy'n sgorio'n isel, a hynny'n gyson, yn y sefydliad. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r maes hwn yn sgorio oddeutu 10% yn is na holl feysydd eraill yr ACF (ac eithrio adnoddau dysgu, sydd eisoes wedi cael cryn sylw yn y blynyddoedd diwethaf).

Mae'r ACF yn ystyried trefn y cwrs drwy holi tri chwestiwn, wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- pa mor drefnus a di-drafferth yw'r cwrs,
- pa mor effeithlon yw'r amserlen, a
- pa mor dda y mae newidiadau yn y cwrs wedi cael eu cyfathrebu i'r myfirwyr.

Un o'r heriau wrth ddehongli'r data hwn yw y gall fod yn anodd canfod yn union beth mae 'trefn y cwrs' yn ei olygu i fyfirwyr, a beth yw eu disgwyliadau yn y maes hwn. Un o nodau canolog yr adroddiad hwn yw ceisio ateb y cwestiynau hyn. Er mwyn darparu atebion i'r cwestiynau hyn, rydym wedi edrych ar y canlynol:

- amserlenni arholiad a chwrs
- amserlenni cwrs
- cyfathrebu, gan gynnwys rhyngweithio staff/myfirwyr, gwasanaethau canolog a newidiadau mewn darlithoedd
- Moodle
- Cofrestru Myfirwyr
- Lleoliadau gwaith i fyfirwyr

Cyn i ni edrych ar y meysydd hyn yn fwy manwl, hoffem egluro, pan holwyd myfirwyr am yr hyn maent yn ei feddwl sy'n dda a beth sydd angen ei wella, y gwahaniaeth mwyaf amlwg oedd rhwng unigolion a phrosesau. Roedd y myfirwyr yn fwyaf cadarnhaol ynglŷn â rhyngweithio â phobl. Boed yn cyfeirio at wybodaeth eu darlithwyr, hygyrchedd a chymorth gan diwtoriaid a staff Gwasanaethau i Fyfirwyr, neu'r cynnwys academiaidd a ddarparwyd gan ddarlithwyr, roedd myfirwyr yn gadarnhaol yn eu hadborth. Mae hyn yn gyson ag adborth a gasglwyd drwy arolygon a dyfarniadau yn y sector fel 'What Uni'.

Roedd ein hymchwil yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth, arolwg dwyieithog ar-lein a rannwyd yn eang, wedi'i gwblhau gan 223 o fyfirwyr PCYDDS, adolygiad o waith ar achosion academiaidd, adborth gan gynrychiolwyr myfirwyr a grwpiau ffocws bach.

Canlyniadau: Demograffeg

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn astudio ar safleoedd Abertawe, Llambed a Chaerfyrddin, gyda nifer fach o ymatebion o Lundain a Chaerdydd. Daeth yn rhan fwyaf o'r ymatebion (45%) o Abertawe, gyda 30% o Llambed a 22% o Gaerfyrddin. Gorgynrychiolir myfyrwyr Llambed ryw ychydig, ond nid yw'n ddigon i fod yn bryderus yn ei gylch.

- Derbyniwyd ymatebion gan bob ysgol, gyda'r Cyfadrannau'n rhannu fel a ganlyn -
- Yr Athrofa (FEC) – 23% ²
- Cyfadrannau Pensaernïaeth, Cyfrifiadureg a Pheirianeg (FACE) – 16%
- Cyfadrannau Celf a Dylunio (FAD) – 10%
- Cyfadrannau Busnes a Rheolaeth (FBM) – 18%
- Cyfadrannau y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio (FHPA) – 33%

Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion (80%) gan fyfyrwyr israddedig, er i ni gael ymatebion gan fyfyrwyr sy'n astudio ar bob lefel (ond niferoedd isel mewn rhai achosion). Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fenywod, ychydig dros raddfa 2:1. Roedd mwy na 55% o'r ymatebwyr rhwng 18 a 21 oed, gyda'r niferoedd yn mynd yn is wrth i oedran gynyddu; er hynny, roedd mwy na 6% o'r ymatebwyr dros 50 oed.

Roedd 87% o'r ymatebwyr yn hunan-ddiffinio fel croenwyn, 6% yn Asiaidd neu'n Asiaidd Brydeinig, gyda gweddill yr ymatebwyr wedi'u rhannu ymhlith grwpiau eraill. Nododd 90% eu bod yn fyfyrwyr o'r DU, gyda nifer cyfartal o fyfyrwyr rhyngwladol o'r UE a'r tu hwnt iddo.

Nid oedd 85% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn ofalwyr; roedd mwy na 10% yn brif ofalwyr plant, tua 5% yn gofalu am oedolion anabl, a dywedodd 3 ymatebwr mai nhw oedd prif ofalwr rhywun dros 65 oed.

Cyflwynwyd y cwestiynau'n ddwyieithog, a chafwyd ymatebion yn y naill iaith a'r llall.

Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod hon yn gynrychiolaeth gymharol gywir o garfan y myfyrwyr yn PCYDDS.

Mae angen nodi un mater: gan mai arolwg hunan-ddewisol wedi'i hyrwyddo drwy Undeb y Myfyrwyr yw hwn, bydd cyfradd uwch o ymatebion gan fyfyrwyr sy'n ymwneud yn fwy â'r Undeb (er enghraifft cynrychiolwyr cwrs a'r rheiny sydd wedi cael cymorth gan yr UM ar gyfer apeliadau neu gwynion).

² D.S. At ddibenion symleiddio'r data, rydym wedi defnyddio enw blaenorol yr Athrofa sef FEC

Deilliannau

Y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i'r myfyrwyr oedd, "Ar y cyfan, pa mor drefnus fydddech chi'n ei ddweud yw eich cwrs chi?" gyda graddfa Likert 1-5 ar gyfer ymatebion. Y sgôr cyffredinol am hyn oedd 3.07; credwn y byddai hyn yn cyfateb i ychydig yn is na sgôr ACF bresennol y Brifysgol ar gyfer yr adran ar Drefniadaeth a Rheolaeth gyffredinol a Ch15 ar drefn y cwrs.

Mae cryn lawer o amrywiad fesul Cyfadran wrth edrych ar bob sgôr yn fanylach. Ar gyfer mwyafrif y cwestiynau, nid yw data fesul campws yn datgelu llawer o ran gwahaniaethau neu fewnwelediad defnyddiol. Serch hynny, mae'n eithaf defnyddiol ystyried campysau ar gyfer y cwestiwn rhagarweiniol eang hwn, gan fod hynny'n datgelu amrywiaeth barn.

Ar y cyfan: **3.07**

FACE 2.71	FAD 3.38	FEC Aber 3.60	FEC Caer 3.17	FBM Aber 2.62	FBM Caer 3.67	FHPA 3.23
---------------------	--------------------	-------------------------	-------------------------	-------------------------	-------------------------	---------------------

Mae'r amrywiaeth o ran sgôr yn ddiddorol o safbwynt cymharol rhwng Cyfadrannau, a hefyd yn ddiddorol i ddangos y gwahaniaethau rhwng campysau lle mae Cyfadrannau'n gweithredu mewn mwy nag un lleoliad. Yn debyg iawn i'r ACF, credwn ei bod yn anodd cysylltu'r cwestiwn cyffredinol hwn ag agweddau diriaethol trefn cyrsiau, er ei fod yn ddefnyddiol o ran rhoi argraff gyffredinol.

Mae argraff gyffredinol o drefn cyrsiau'n dangos darlun cymysg rhwng Cyfadrannau a, lle bo'n berthnasol, rhwng y safleoedd o fewn cyfadrannau. Nid oes unrhyw duedd gyffredinol fesul campws yn amlygu ei hun o'r cwestiwn hwn, ond gall y dadansoddiad hwn helpu rhai cyfadrannau i ganfod gwahaniaethau mewn profiadau myfyrwyr.

Nod yr adrannau canlynol yw crynhoi ein canfyddiadau ar gyfer pob un o'r pynciau a ystyriwyd gennym. Mae trefn cyrsiau'n gymhleth a does mo'r fath beth ag ateb i bob dim ar ffurf un newid y dylai'r Brifysgol ei wneud i wella boddhad myfyrwyr.

Ym mhob adran byddwn yn crynhoi ein canfyddiadau, yn rhannu adborth perthnasol, ac yn gwneud argymhelliad i'w ystyried. Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y mater sydd dan sylw, ni fyddwn ond yn rhoi crynodeb o bob thema. Fodd bynnag, rydym wedi casglu cyfoeth o ddata y byddem yn ddigon bodlon ei rannu â chyfadrannau ac adrannau perthnasol er mwyn galluogi trafodaeth bellach a llywio gwaith yn y dyfodol.

Cyfathrebu

Nododd myfyrwyr y canlynol fel y materion pwysicaf y mae'r Brifysgol yn cyfathrebu â nhw yn eu clych. Nid yw'n syndod mai'r rhain ydynt:

- Newidiadau mewn amserlenni a darlithoedd (dewiswyd gan 45%)
- Gwybodaeth am asesiadau a therfynau amser (22%)
- Gwybodaeth am fwrsariaethau (10%), a
- Newidiadau eraill mewn modiwlau (7%)

Roedd y materion hyn yn cael eu hadlewyrchu'n weddol gyfartal ar draws y Cyfadranau. Dewisodd myfyrwyr o bob cyfadran newidiadau mewn amserlenni fel y peth pwysicaf.

Datgelodd y sylwadau agored nifer o dueddiadau cyffredin sy'n berthnasol ar draws y Brifysgol. Mae'r maes cyntaf yn ymwneud â gohebiaeth e-bost, lle cyfeiriodd y myfyrwyr at nifer y cyfathrebiadau a gafwyd gan y Brifysgol a pha mor berthnasol oedd yr wybodaeth honno. Un gŵyn gyffredin oedd bod negeseuon e-bost pwysig yn cael eu colli ymhlith yr holl negeseuon e-bost y maent yn eu hystyried yn llai perthnasol. Roedd y brif duedd arall yn gysylltiedig ag amseru cyfathrebiadau sy'n sensitif o ran amser. Cwyn cyffredin gan fyfyrwyr yw eu bod yn aml yn cael gwybodaeth bwysig am leoliadau gwaith, newidiadau mewn darlithoedd ac aseiniadau yn hwyr yn y prynhawn, sy'n golygu eu bod yn methu â chodi materion sy'n ymwneud â'r cynnwys neu ofyn cwestiynau dilynol yn y fan a'r lle. Dywedodd un o'r ymatebwyr iddo gael e-byst ynglŷn â lleoliad gwaith am 5pm ar ddydd Gwener, a'r cyfnod i ddechrau oedd ar y dydd Llun canlynol. Felly doedd dim amser i egluro'r trefniadau neu wneud cynlluniau amgen.

Dywedodd mwy na thri chwarter y myfyrwyr y gwnaed newidiadau munud olaf yn eu cwrs. Yn y sylwadau, cyfeiriwyd at newidiadau mewn amseroedd darlithoedd ac ystafelloedd. Er bod cydnabyddiaeth nad oedd modd osgoi'r newidiadau hyn yn aml, roedd cryn anfodlonrwydd ynglŷn â'r modd y gwnaed rhai o'r newidiadau hyn. Dywedodd llawer nad oedd y newidiadau hyn ond yn cael eu cyhoeddi awr neu ddwy cyn y ddarlith, ac mewn rhai achosion, gosodwyd y newidiadau ar ddrws neu hysbysfwrdd yr ystafell ddosbarth. Rydym yn croesawu'r polisi newydd o ran canslo, gohirio ac ail-drefnu dosbarthiadau ac rydym mawr obeithio y caiff y polisi hwn yr effaith a ddymunir.

Argymhellion

Gall y ddwy duedd uchod fod yn ganfyddiad yn hytrach na ffaith, ac rydym yn amau bod y rhain yn adlewyrchu ymddygiad myfyrwyr o ran defnyddio e-byst. Nid yw myfyrwyr yn defnyddio e-byst yn yr un modd â staff ac efallai nad yw'n realistig disgwyl i fyfyrwyr ddarllen eu negeseuon e-bost bob dydd. Yr hyn sy'n glir yw bod myfyrwyr yn ystyried yr holl draffig e-bost yn rhwystr i gyfathrebu effeithiol.

Mae hwn yn faes anodd ei ddatrys, gan fod yr hyn sy'n wybodaeth ddefnyddiol a hanfodol i un person yn amherthnasol i rywun arall.

1

Yr unig argymhelliad synhwyrol sydd gennym yw bod y Brifysgol yn ceisio defnyddio dull cyfathrebu gwahanol i e-byst i drosglwyddo'r negeseuon pwysicaf i fyfyrwyr, h.y. y pedwar maes rydym wedi'u hamlygu uchod.

2

Hefyd bod gweithrediad y Polisi Canslo, Gohirio ac Ail-drefnu Dosbarth newydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd o ran effeithiolrwydd a chysondeb.

Amserlennu

Mae amserlennu'n fater o bryder ers cryn amser gan gynrychiolwyr cwrs a myfyrwyr eraill. Pan ofynnwyd iddynt raddio eu boddhad â pha mor gyflym y cawsant eu hamserlen ar raddfa Likert o 1 i 5, y sgôr ar y cyfan oedd 2.87. At ei gilydd, nid yw hwn yn ddarlun cadarnhaol gyda llai na hanner y myfyrwyr yn gosod y Brifysgol yn y 2 gwintel uchaf, a mwy o sgorio yn y 2 gwintel isaf ar y cyd nag yn y ddau uchaf.

Ar y cyfan 2.87	FACE 3.00	FAD 2.75	FBM 2.23	FEC 3.30	FHPA 2.83
---------------------------	---------------------	--------------------	--------------------	--------------------	---------------------

Pwynt a drafodir yn aml yw: a yw hyn yn achos o reoli disgwyliadau myfyrwyr neu a yw myfyrwyr yn cael amserlenni yn hwyrach na'r hyn sy'n rhesymol.

Yn ein hymchwil, dywedodd dros 50% o fyfyrwyr eu bod wedi cael eu hamserlen naill ai ar ôl i'r addysgu ddechrau, ar y diwrnod cyntaf, neu'r diwrnod cyn i'r dosbarthiadau ddechrau. Nododd 25% ychwanegol iddyn nhw gael eu hamserlen lai nag wythnos cyn i'r addysgu ddechrau, a dim ond ychydig mwy nag 20% oedd wedi cael eu hamserlen fwy nag wythnos cyn i'r dosbarthiadau ddechrau.

Dangosodd y sylwadau ddwy brif thema o ran anfodlonrwydd myfyrwyr. Yn gyntaf, na chafwyd amserlenni mewn digon o amser i wneud cynlluniau addas, gan felly achosi anawsterau ymarferol a straen diangen. Yn ail, dywedodd y myfyrwyr fod anghysondeb neu newidiadau munud olaf yn aml yn yr amserlenni a gyfathrebwyd iddynt gan y staff addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r dyfyniad canlynol gan fyfyrwr israddedig yn adlewyrchu barn a phrofiad y myfyrwyr ynglŷn ag amserlennu.

"Roedd rhaid i mi ofyn am fy amserlen ar gyfer y tymor cyntaf a chael gwybod fy hun lle y dylwn i fod ar ddiwrnod cyntaf y cwrs. Roedd yr ail dymor ychydig yn well gan i un o'n darlithwyr ei gyhoeddi ar Moodle ac anfon e-bost i roi gwybod i ni. Serch hynny, roedd yn anghywir, gyda rhai darlithoedd yn gwrthdaro ac roedd rhaid i'r darlithwyr eu diwygio a'u datrys eto ar ddiwrnod cyntaf y tymor ... Onid oes gweinyddwr cwrs i ddelio â hyn i gyd a threfnu'r cwrs? Yr esboniad arall yw bod baich gwaith y staff gweinyddol yn ormod i'r fath raddau bod rhaid i'n darlithwyr eu helpu nhw."

Argymhellion

3

Dylai'r Brifysgol ymrwymo i gyhoeddi amserlenni cywir i bob myfyriwr o leiaf wythnos cyn i'r addysgu ddechrau ym mhob tymor, a bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei ychwanegu at siarter y myfyrwyr, ei fod yn cael ei fonitro a'i adrodd yn ôl i bwyllgor priodol y Brifysgol.

Yn gyffredinol, o ran ehangder dewis modiwlau, roedd myfyrwyr yn llawer mwy bodlon. Lle ceir sgoriau is, mae'r rhain yn cael eu lliniaru rywfaint gan sylwadau sy'n awgrymu bod diffyg dewis yn fwy oherwydd nifer isel y myfyrwyr sy'n dymuno gwneud modiwlau, yn hytrach na diffyg dewis cyffredinol. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn fodlon â'u dewis o fodiwlau ac nid oes gennym unrhyw argymhellion i'w gwneud yn y maes hwn. Rydym wedi casglu nifer o sylwadau penodol iawn gan fyfyrwyr yng Nghyfadrannau y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio a byddwn yn rhannu'r rheiny â staff y Gyfadrannau berthnasol i'w hystyried.

O ran trefnu amserlen terfynau amser ar gyfer aseiniadau, roedd y myfyrwyr yn fodlon ar y cyfan, ac roedd y duedd gyffredinol yn adlewyrchu'r ffaith bod y myfyrwyr yn credu bod digon o amser rhwng aseiniadau'n cael eu gosod a'r terfynau amser. O ran y myfyrwyr a oedd yn anfodlon, roedd dwy duedd yn ymddangos yn groes i'w gilydd: dywedodd myfyrwyr ar raglenni â chyfnod dwys o derfynau amser y byddai'n well pe bai'r rhain wedi'u gwahanu; a mynegodd myfyrwyr a oedd â therfynau amser wedi'u rhannu allan yn rheolaidd, y byddai'n well pe bai'r terfynau amser yn cael eu symud mor agos â phosib at ddiwedd y tymor.

O ystyried y canfyddiadau yn y maes hwn, nid oes gennym unrhyw argymhellion penodol, er bod safbwynt Undeb y Myfyrwyr ar derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith wedi bod yn gyson, sef y dylid bod digon o amser i fyfyrwyr gael adborth a'i ystyried rhwng aseiniadau.

Nododd 25% o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg iddynt gael problemau wrth gofrestru, sef nifer arbennig o uchel ar gyfer proses mor sylfaenol. Ymhlith y problemau cyffredin roedd gwybodaeth anghywir am fodiwlau neu oedi yn y broses o ddewis modiwlau, colli gwybodaeth a data (gan gynnwys gwaith papur y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd [GDG] yn mynd ar goll) ac oedi o ran cyfathrebu a chydweithrediad rhwng unedau. Dangosir rhai o'r themâu hyn drwy enghreifftiau isod:

- Dywedodd un myfyriwr ei fod wedi wynebu oedi sylweddol wrth gofrestru oherwydd bod y system yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddewis modiwlau gwerth cyfanswm o 120 o gredydau cyn iddynt allu gorffen cofrestru, er nad oedd ond angen iddynt arwyddo ar gyfer gwneud modiwl traethawd estynedig gwerth 40 credyd. Er mwyn datrys y broblem hon, bu rhaid i'r myfyriwr fynd yn ôl â blaen gyda darnau o bapur yn ei law rhwng y Gofrestrfa, yr Adran Gyllid, Gwasanaethau i Fyfirwyr a'i Gyfadran.
- Nododd myfyriwr arall nifer o ddogfennau a gollwyd (gan gynnwys copïau o'u Pasbort a GDG) a arweiniodd at oedi sylweddol wrth drefnu lleoliadau gwaith. Trosglwyddwyd y myfyriwr hwn rhwng nifer o unedau, yn gorfforol ac yn electronig, yn aml gan eu cyfeirio at bobl a swyddfeydd lle roeddent eisoes wedi bod.
- Dywedodd myfyriwr rhyngwladol, oedd newydd symud i'r DU a dechrau ei flwyddyn gyntaf, y bu rhaid iddo gysylltu ac ymweld â'r Gofrestrfa, y Swyddfa Gyllid, y Swyddfa Ryngwladol, y Swyddfa Academaidd a Gwasanaethau i Fyfirwyr, i ddatrys problem ynghylch ei fisa, a oedd wedi digwydd oherwydd gwall prosesu yn y Brifysgol. Ni roddwyd yr un pwynt cyswllt i'r myfyriwr hwn, ond yn hytrach bu rhaid iddo gysylltu â 5 aelod gwahanol o staff y Brifysgol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y naill a'r llall, er mwyn datrys y sefyllfa. Proses a ddisgrifiwyd fel un llethol, a arweiniodd atynt yn mynd at y gwasanaeth cynghori am gymorth ar gyfer straen.

Rydym yn cydnabod bod gweithredu'r system cofnodion myfirwyr newydd yn amlwg yma a dylid ystyried hynny. Fodd bynnag, mae'r broses gofrestru uwchlaw popeth arall yn dangos rhai o'r heriau y mae myfirwyr yn eu hwynebu wrth gyfathrebu'n effeithiol â'r Brifysgol. Mae'n gwbl ddealladwy bod y Brifysgol yn trefnu ei gwasanaethau fesul adran, sy'n gwneud synnwyr o safbwynt sefydliadol. Mae safbwynt y myfyriwr yn wahanol, nid ydynt yn gweld adrannau unigol, mae angen proses ddealladwy, gwybodaeth gyson ac adborth arnynt, ac ymdeimlad eu bod yn gwneud cynnydd â'r mater sydd dan sylw. Dywedodd 22% o fyfirwyr nad oeddent yn cael digon o wybodaeth i'w galluogi i gofrestru'n brydlon. Roedd y sylwadau a gafwyd yn adran agored y cwestiwn hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y problemau â'r broses ddethol modiwlau. Dywedodd llawer o fyfirwyr fod diffyg gwybodaeth lawn neu wybodaeth ar goll neu'n cael ei darparu'r hwyr o ran modiwlau, yn golygu unwaith i'r tymor ddechrau

a'u bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth fwy cyflawn, roeddent yn anfodlon â'r modiwlau a ddewiswyd ganddynt yn ystod y cyfnod cofrestru. Soniodd 18% o'r ymatebwyr iddynt gael problemau wrth gyflwyno dogfennau a gwybodaeth i'r Brifysgol. Y prif themâu oedd colli dogfennau a rhwystredigaeth gyda materion technegol systemig (fel cymwysterau'n uwchlwytho'n iawn neu rwystredigaeth wrth fynd ati i newid manylion personol). Y thema gyffredin yn yr ymatebion lle nododd myfyrwyr anfodlonrwydd oedd teimlad bod rhaid i'r myfyriwr bob amser gysylltu â'r Brifysgol i wirio cynnydd ac yn aml yn canfod nad oedd y cynnydd hwnnw fel y disgwyl. Sylwn fod y Pwyllgor Polisi Corfforaethol (PPC) wedi cymeradwyo papur yn ddiweddar ar sefydlu gwasanaeth GDG ar-lein ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn datrys rhai o'r anawsterau y mae myfyrwyr wedi sôn amdanynt.

Argymhellion


Mae cofrestru yn broses graidd y mae rhaid i bob myfyriwr ymgymryd â hi. Rydym yn derbyn bod anghenion rhai myfyrwyr yn fwy cymhleth nag eraill, ond ymddengys o'r adborth nad yw'r drefn bresennol yn effeithlon na'n hawdd i fyfyrwyr ei defnyddio, yn enwedig os oes ganddynt problem.

4	Dylai'r Brifysgol adolygu'r broses gofrestru (ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd) er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn amserol a bod y broses yn effeithiol ac yn hygyrch.
5	Dylid cynllunio'r broses gofrestru o amgylch y myfyriwr, nid o amgylch strwythur uned weinyddol y Brifysgol. Dylid ystyried darparu adnoddau tymhorol ychwanegol i weithredu fel pwynt cyswllt canolog, rhagweithiol i ddatrys materion cofrestru.
6	Mae angen i'r Brifysgol fonitro a chasglu gwybodaeth am faterion sy'n perthyn i gofrestru'n flynyddol at ddibenion adolygu a datblygu.

Mae boddhad myfyrwyr â Moodle yn gymysg, fel y dangosir yn y graff isod:

Boddhad â Moodle fesul Cyfadran

● Bodlon ● Weithiau ● Anfodlon



Mae dwy brif duedd yn dod i'r amlwg o ran Moodle. Yn gyntaf, dywedodd myfyrwyr nad oeddent yn gallu cael mynediad i'r tudalennau cywir oherwydd anawsterau cofrestru a phroblemau â'r rhyngwyneb.

Yn ail, ac yn fwy cyffredin, dywedodd myfyrwyr fod gwybodaeth ar goll o rai tudalennau cyrsiau, roedd dolenni wedi'u torri neu roedd gwybodaeth wedi'i threfnu'n wael, neu heb ei huwchlwytho o gwbl.

Dywedodd 43% o fyfyrwyr fod eu profiad o Moodle yn gyson ar draws eu cyrsiau, er bod y sylwadau'n ei gwneud yn glir bod nifer o'r ymatebion hyn yn golygu iddynt gael profiad a oedd yn negyddol yn gyson.

Pan ofynnwyd iddynt yn benodol am fynediad at wybodaeth glir ac amserol am aseiniadau ar Moodle, dywedodd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr iddynt gael anawsterau wrth ddod o hyd iddi ar y llwyfan, neu ar y gorau, nid oedd gwybodaeth glir ac amserol ond ar gael ar draws rhai o'u modiwlau. Lle roedd staff wedi uwchlwytho cynnwys a ystyrid yn berthnasol ac yn ddefnyddiol gan y myfyrwyr, roedd wedi'i drefnu mewn ffordd hygyrch. Hyd yn oed pan oeddent ond yn gallu defnyddio'r system yn effeithiol,

roedd y myfyrwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r llwyfan.

Fodd bynnag, yn rhy aml, dywedodd y myfyrwyr nad oedd y cynnwys yn cael ei uwchlwytho, neu nad oedd yr hyn a gafodd ei uwchlwytho yn hygyrch iawn. Ymddengys fod y ffactor mwyaf arwyddocaol o ran profiad myfyrwyr o ddefnyddio Moodle yn uniongyrchol gysylltiedig â brwdfrydedd a gallu staff i ddefnyddio'r llwyfan. Mae nifer o enghreifftiau i'w gweld yn ein hymchwil lle mae profiad myfyrwyr o'r llwyfan yn wahanol iawn ar yr un modiwl sy'n cynnwys sawl darlithydd.

Argymhellion

7	Dylai'r Brifysgol gwblhau archwiliad 2017-18 o 'Safonau Sylfaenol Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh)' a defnyddio'r wybodaeth i wella defnydd ac ymgysylltiad, datrys problemau o ran mynediad a chanfod anghenion hyfforddi a datblygu.
8	Dylid hyrwyddo'r Safonau Sylfaenol ADRh i fyfyrwyr, a'u gwneud yn hygyrch iddynt, er mwyn sefydlu lefel disgwyliadau.
9	Dylid gofyn i'r staff addysgu gydymffurfio â'r safonau hyn mewn ffordd debyg i'r gofyniad sydd ar fyfyrwyr i addo ymgysylltu a defnyddio'r llwyfan.

Lleoliadau Gwaith

Gofynnwyd nifer o gwestiynau i fyfyrwyr a oedd wedi bod ar leoliad gwaith am fwy na phythefnos ynglŷn â'u profiadau. Myfyrwyr ar gampws Caerfyrddin oedd mwyafrif y rheiny a ymatebodd (80%). Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o FEC gyda thua hanner y rheiny o SWWCTE a'r lleill o'r ysgolion eraill, SJI yn bennaf.

Roedd mwy na hanner y rheiny a ymatebodd (53%) yn teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth ar ddechrau'r lleoliad gwaith i'w galluogi i baratoi'n ddigonol. Mae myfyrwyr yn cyfeirio at amserlen dynn o ran gwybodaeth am leoliadau gwaith, gyda mwyafrif y myfyrwyr yn dweud eu bod wedi cael gwybodaeth rhwng 1 diwrnod a phythefnos cyn i'r lleoliad gwaith ddechrau. Mewn achosion eraill, dywedodd pobl iddynt gael digon o rybudd i ddechrau, ond bod yr wybodaeth wedi newid wedyn. Roedd y sylwadau hyn yn adlewyrchu profiadau pob myfyriwr ar leoliad gwaith, nid dim ond y rhai yn SWWCTE.

Roedd yr ymatebwyr yn llawer mwy bodlon â'r gefnogaeth a'r cyswllt a gawsant gan y Brifysgol yn ystod eu lleoliad gwaith (85%), ac roeddent yn teimlo bod yr wybodaeth a gafwyd ganddynt yn gywir (75%). Serch hynny, dywedodd un ymatebydd i'r arolwg ei fod wedi cael eu hanfon i'r lleoliad gwaith anghywir, sefyllfa a oedd yn gyffredin i nifer o fyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd un achos o athro dan hyfforddiant ar wythnos bontio a anfonwyd i ysgol nad oedd yn dysgu eu pwnc.

Mae myfyrwyr yn llawer mwy bodlon â'u profiadau o ryngweithio â'u tiwtoriaid, a chydâ'r cymorth a gawsant i'w helpu i baratoi ar gyfer elfennau ymarferol eu lleoliadau gwaith, gan gynnwys safonau proffesiynol. Mae materion sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith yn ymwneud yn bennaf â phennu lleoliadau a'r broses gyfathrebu, fel arwyddo gwiriadau GDG - yn benodol yn achos materion sy'n ymwneud â'r broses GDG, rydym yn gobeithio y bydd y gymeradwyaeth ddiweddar i'r gwasanaeth GDG ar-lein yn cael effaith gadarnhaol.

Recommendations

10

Sicrhau bod gwybodaeth am leoliadau gwaith a chyfathrebu'n gywir ac yn amserol.

Tabl o Argymhellion

1	Yr unig argymhelliad synhwyrol sydd gennym yw bod y Brifysgol yn ceisio defnyddio dull cyfathrebu gwahanol i e-byst i drosglwyddo'r negeseuon pwysicaf i fyfyrwyr, h.y. y pedwar maes rydym wedi'u hamlygu uchod.
2	Hefyd bod gweithrediad y Polisi Canslo, Gohirio ac Ail-drefnu Dosbarth newydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd o ran effeithiolrwydd a chysondeb.
3	Dylai'r Brifysgol ymrwymo i gyhoeddi amserlenni cywir i bob myfyriwr o leiaf wythnos cyn i'r addysgu ddechrau ym mhob tymor, a bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei ychwanegu at siarter y myfyrwyr.
4	Dylai'r Brifysgol adolygu'r broses gofrestru (ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd) er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn amserol a bod y broses yn effeithiol ac yn hygyrch.
5	Dylid cynllunio'r broses gofrestru o amgylch y myfyriwr, nid o amgylch strwythur adrannol y Brifysgol. Dylid ystyried darparu adnoddau tymhorol ychwanegol i weithredu fel pwynt cyswllt canolog, rhagweithiol i ddatrys materion cofrestru.
6	Mae angen i'r Brifysgol fonitro a chasglu gwybodaeth am faterion sy'n perthyn i gofrestru'n flynyddol at ddibenion adolygu a datblygu.
7	Dylid defnyddio 'Safonau Sylfaenol ADRh y Brifysgol' i fesur a monitro'r defnydd o Moodle a nodi anghenion hyfforddi a datblygu.
8	Dylid hyrwyddo'r Safonau Sylfaenol ADRh i fyfyrwyr, a'u gwneud yn hygyrch iddynt, er mwyn sefydlu lefel disgwyliadau.
9	Dylid gofyn i'r staff addysgu gydymffurfio â'r safonau hyn mewn ffordd debyg i'r gofyniad sydd ar fyfyrwyr i ymgysylltu a defnyddio'r llwyfan.
10	Sicrhau bod gwybodaeth am leoliadau gwaith a chyfathrebu'n gywir ac yn amserol.

Atodiad 1

Rhaglenni heb ddatganiadau

Ein hargymhelliad yw bod y costau cysylltiedig yn cael eu rhestru mewn cyhoeddusrwydd ar gyfer rhaglenni. Nid oedd y rhaglenni canlynol yn dangos gwybodaeth am gostau ar ein dyddiad archwilio (gwybodaeth yn gywir ar 17 Ebrill 2018). Mae'r rhestr hon mor gynhwysfawr â phosib, gan ddefnyddio gwefan y Brifysgol fel yr unig adnodd.

Cyfadran Busnes a Rheolaeth

BA Cyfrifeg

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ba-cyfrifeg/>

HND Busnes a Chyllid

<http://www.uwtsd.ac.uk/hnd-business-finance/>

BA Rheolaeth Diwydiannau Diwylliannol

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-cultural-industries-management/>

BA Busnes a Rheolaeth (Caerfyrddin)

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-business-and-management/>

BA Rheolaeth Busnes (Abertawe)

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ba-rheolaeth-busnes/>

BA Rheolaeth Mentrau Gwledig (Caerfyrddin)

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-rural-enterprise-management/>

BA y Gyfraith a Busnes / y Gyfraith a Gwasanaeth Cyhoeddus

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-law-and-business/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-law-and-public-service/>

Yn wir, pob BA Busnes, TystAU, HND a CIPD.

BSc / Fdn / HND Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Rheolaeth Iechyd ac eraill

<http://www.uwtsd.ac.uk/bsc-health-social-care/>

DipAU Astudiaethau Nyrsio

<http://www.uwtsd.ac.uk/dip-he-nursing-studies-health/>

HND Gwasanaethau Cyhoeddus

<http://www.uwtsd.ac.uk/hnd-public-services/>

BA Gwasanaethau Cyhoeddus

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-public-services/>

BSc Plismona

<http://www.uwtsd.ac.uk/bsc-police-sciences/>

Ar y dyddiad y gwiriwyd y rhain, methwyd dod o hyd i unrhyw wybodaeth gyhoeddus am gostau ar gyfer unrhyw raglenni sy'n cael eu cynnal drwy gampysau Llundain na Birmingham.

Cyfadrn Celf a Dylunio

MA Delweddau Symudol

<http://uwtsd.ac.uk/postgraduate/ma-moving-image/>

MA Tecstiliau

<http://uwtsd.ac.uk/postgraduate/ma-moving-image/>

MRes Celf a Dylunio

<http://uwtsd.ac.uk/postgraduate/mres-art-and-design/>

BA Astudiaethau Orielau Celf ac Amgueddfeydd

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-art-gallery-museum-studies/>

BA Perfformio Cyfoes

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-performing-arts-contemporary-performance/>

BA Drama Gymhwysol

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-applied-drama/>

Atodiad 1

Rhaglenni heb ddatganiadau

Yr Athrofa

BSc Seicoleg a Chwnsela

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/israddedig/seicoleg-a-chwnsela/bsc-seicoleg-a-cwnsela/>

Tyst AU Eiriolaeth

<http://www.uwtsd.ac.uk/cert-he/certificate-of-higher-education-in-advocacy/>

MA Addysg a Gofal Blynnyddoedd Cynnar

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ma-plentyndod-cynnar/>

BSc Seicoleg Gymhwysol/BSc Seicoleg

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/israddedig/seicoleg-a-chwnsela/bsc-seicoleg-gymhwysol/>

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/israddedig/seicoleg-a-chwnsela/bsc-anrh-seicoleg/>

BSc Iechyd Meddwl

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/israddedig/seicoleg-a-chwnsela/bsc-iechyd-meddwl/>

MSc Seicoleg Gymhwysol Iechyd a Chymdeithas

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/graddau-olraddedig/msc-seicoleg-gymhwysol-iechyd-a-chymdeithas/>

BA Addysg Gynradd gyda SAC

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ba-addysg-gynradd-gyda-sac/>

TAR Cynradd ac Uwchradd (pob ffrwd) -

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/tar-cynradd/>

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/tar/tar-uwchradd/>

TystAU Gwaith Chwarae

<http://www.uwtsd.ac.uk/cert-he/certificate-of-higher-education-in-playwork/>

BA Gwaith Ieuenctid a Chymunedol

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ba-gwaith-ieuenctid-a-chymuned/>

Cyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio

BA Gwrthdaro a Rhyfel

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-conflict-and-war/>

Pob Rhaglen MA/MRes mewn Hanes/Astudiaethau Clasurol/Canoloesol

Pob rhaglen BA/MA/MRes dan Anthropoleg

Astudiaethau Tsieineaidd

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-chinese-studies/>

BA Saesneg / gyda TEFL / gydag Astudiaethau Addysg

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-english/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-english-tefl/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-english-education-studies/>

BA Ysgrifennu Creadigol

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-creative-writing/>

Pob MA/MRes mewn Ysgrifennu Creadigol/Llenyddiaeth

BA Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg

<http://www.uwtsd.ac.uk/undergraduate/politics--economics/ba-philosophy-politics-and-economics/#d.en.58479>

BA Astudiaethau Treftadaeth

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-heritage-studies>

BA Astudiaethau Hanesyddol Modern / gyda Rheolaeth Treftadaeth -

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-modern-historical-studies/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-modern-historical-studies-heritage-management>

MA Ymarfer Treftadaeth

<http://www.uwtsd.ac.uk/ma-heritage-practice>

BA Astudiaethau Celtaidd

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ba-astudiaethau-celtaidd/>

BA Datblygu Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth Fyd-eang

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-international-development-and-global-politics/>

Atodiad 1

Rhaglenni heb ddatganiadau

BA Athroniaeth/BA Astudiaethau Moesegol a Gwleidyddol/MA Athroniaeth - Gan gynnwys MPhil a rhai rhaglenni cyfunol

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-philosophy/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/ba-ethical-political-studies>

<http://www.uwtsd.ac.uk/ma-philosophy/>

Diploma Graddedig mewn Beibl a Diwinyddiaeth

<http://www.uwtsd.ac.uk/graduate-diploma-bible-theology/>

Pob MA/MTh/MRes mewn Crefydd BA Perfformio/MA Theatr a Pherfformio/MA Cyfarwyddo

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/cbc/profiadau/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/postgraduate/ma-theatr-a-pherfformio/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/postgraduate/ma-cyfarwyddo/>

WIAV

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/wiav/astudiaethau-israddedig/>

Cyfadran Pensaernïaeth, Cyfrifiadureg a Pheirianeg

BSc Pensaernïaeth

<http://www.uwtsd.ac.uk/bsc-architecture/>

Tyst AU STEM

<http://www.uwtsd.ac.uk/cert-he/certificate-of-higher-education-in-stem/>

**MSc Adeiladu Cynaliadwy/Rheolaeth Eiddo a Chyfleusterau/Amgylcheddol/
Cadwraeth a Rheolaeth**

<http://www.uwtsd.ac.uk/msc-sustainable-construction/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/msc-facilities-management/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/msc-environmental-conservation-management/>

Pob MSc mewn Cyfrifiadureg Gymhwysol

MSc Profi a Gwerthuso Nad yw'n Ddinistriol

<http://www.uwtsd.ac.uk/msc-non-destructive-testing-and-evaluation/>

BSc/HND Logisteg a Thrafnidiaeth

<http://www.uwtsd.ac.uk/bsc-logistics-services/>

BSc Rheolaeth Campau Modurol

<http://www.uwtsd.ac.uk/bsc-motorsport-management/>

MSc Logisteg/Gweithgynhyrchu Chwim ac Ystwyth

<http://www.uwtsd.ac.uk/msc-logistics/>

<http://www.uwtsd.ac.uk/msc-lean-agile-manufacturing/>

BEng/MEng Peirianeg Ceir

<http://www.uwtsd.ac.uk/beng-automotive-engineering/>